# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

VALID FROM 01/04/2024

## RHAN 2

PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A DATBLYGU CYNALIADWY

### 15 Trosolwg o'r Rhan a dehongli

(1) At ddibenion gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru, mae'r Rhan hon—

(a) yn gosod dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol newydd fel rhan o'r ddyletswydd llesiant yn adran 3(1) o DLlCD 2015;

(b) yn diwygio'r nod llesiant "Cymru lewyrchus" y mae cyrff cyhoeddus i ymgyrraedd ato wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan DLlCD 2015 fel bod sicrhau gwaith teg yn rhan o'r disgrifiad o'r nod.

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae i "datblygu cynaliadwy" yr ystyr a roddir gan adran 2 o DLlCD 2015.

(3) Yn y Rhan hon, ystyr "corff cyhoeddus" yw person a restrir fel "corff cyhoeddus" yn adran 6(1) o DLlCD 2015, ond at ddibenion adrannau 16 a 18 nid yw'n cynnwys Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)*

**16 Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**

(1) Wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, rhaid i gorff cyhoeddus, i'r graddau y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd â'i undebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff ar—

(a) yr amcanion llesiant sydd i'w gosod o dan adran 3(2)(a) o DLlCD 2015;

(b) gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2)(b) o DLlCD 2015.

(2) At ddibenion is-adran (1), er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol)—

(a) ymgynghori â hwy yng nghyfnod ffurfiannol y broses, a

(b) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy—

(i) darparu gwybodaeth ddigonol i'w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn sy'n cael ei gynnig, a

(ii) darparu amser digonol i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn sy'n cael ei gynnig ac ymateb.

(3) Wrth ystyried beth sy'n rhesymol o dan is-adran (1) rhaid i gorff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG cyn cyhoeddi'r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**17 Dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru**

Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd (wrth arfer eu swyddogaethau) o dan adran 3(2)(b) o DLlCD 2015 (i gyflawni'r amcanion a osodir o dan adran 3(2)(a) o DLlCD 2015), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**18 Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol**

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 16.

(2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff, neu rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, RHAN 2. (See end of Document for details)*

(3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r CPG, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

### 19 Adroddiadau partneriaeth gymdeithasol: Gweinidogion Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y maent wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17.

(2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gyda'r CPG neu rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol—

(a) cyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r CPG;

(b) gosod yr adroddiad gerbron y Senedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

### 20 Gwaith teg

Yn adran 4 (nodau llesiant) o DLlCD 2015, yn Nhabl 1, yn y disgrifiad o nod "Cymru lewyrchus", yn lle "waith addas" rhodder "waith teg".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) part yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn ddilys ar gyfer y pwynt mewn amser hwn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, RHAN 2.